

## Ymateb ysgrifenedig Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith: Dyfodol Bysiau a Threnau yng Nghymru

Mae trafndiaeth gyhoeddus yn cysylltu pobl â'i gilydd, yn rhwymo cymunedau ac yn helpu busnesau i dyfu ac ehangu. Mae Llwybr Newydd – Strategaeth Trafnidiaeth Cymru, yn nodi'n cynlluniau ar gyfer system drafnidiaeth hygyrch, gynaliadwy ac effeithlon.

Mae'r gwaith i drawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd a fydd yn darparu gwasanaethau trên trydan, modern, ac amlach yn Nwyrain y De yn mynd rhagddo.

Mae Metro De Cymru yn brosiect uchelgeisiol, gwerth miliynau o bunnau a fydd yn gweddnewid y ffordd yr ydym i gyd yn teithio, gyda'i ffocws ar drenau, bysiau, teithio llesol a thrafnidiaeth integredig. Ym mhob rhan o Fetro De Cymru, byddwn yn trydaneiddio 170km o drac, yn adnewyddu'n holl orsafoedd a signalau ac yn adeiladu o leiaf dwy orsaf newydd.

Rydyn ni'n buddsoddi £800m mewn fflyd o drenau newydd a fydd yn gwasanaethu teithwyr ledled Cymru gan wella'r cyfleusterau iddynt a gwneud eu teithiau'n fwy cysurus. Erbyn 2024 bydd 95% o deithiau teithwyr yng Nghymru ar drenau newydd sbon, yn unol â'n hymrwymiaadau yn ein Rhaglen Lywodraethu. Bydd y trenau newydd yn cynnwys trenau trydan/batri Stadler ar gyfer llinellau craidd y cymoedd a fflyd ddiesel newydd y disgwylir iddi fod rhyw 20% yn fwy effeithlon na'r fflyd bresennol.

Bydd y cyntaf o drenau newydd CAF yn dechrau gweithio ddiweddarach eleni yn y Gogledd, gyda'r cyntaf o drenau newydd Stadler yn dechrau gweithio yn y De yn gynnar yn 2023. Bydd y trenau newydd yn dod â gwelliannau sylweddol i deithwyr o'u cymharu â'r trenau maent yn eu disodli gan olygu y bydd TrC yn gallu darparu mwy o wasanaethau a gwasanaethau gwell ledled Cymru a'r gororau.

Rydyn ni'n gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru i ddatblygu trefn 'Talu-wrth-Deithio', 'sganio i mewn ac allan' ar drenau, a'i defnyddio gyntaf yn ardal Metro'r De. Cynigir ystod o brisiau siwrneiau unffordd rhad, gyda chap dyddiol, wythnosol a misol, tebyg i'r hyn a geir ar drafnidiaeth gyhoeddus yn Llundain.

Mae TrC yn cynnig opsiynau teithio am ddim ar eu gwasanaethau rheilffyrdd i bobl dan 16 oed sy'n teithio gydag oedolion sy'n talu. Cynigir cardiau trenau i bobl ifanc 16 oed a throsodd sy'n cynnig traean o ostyngiad ar bris tocyn trên arferol.

Rydym hefyd yn gweithio ar fenter 'Tocynnau Tecach' er mwyn gwneud teithio ar fws yn fwy fforddiadwy a hygyrch i gymunedau ledled Cymru. Rydym yn cynllunio tocynnau integredig i'w gwneud hi'n bosibl teithio yng Nghymru'n ddi-dor ac yn symlach.

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn rhoi arian argyfwng i'r diwydiant bysiau ers dechrau'r pandemig. Mae lefelau defnydd wedi cynyddu i raddau gwahanol ledled Cymru. Ddiwedd Mehefin, cyhoeddod ni becyn cymorth arall gwerth £48m ar gyfer y diwydiant bysiau i'w helpu i barhau i ymadfer ar ôl y pandemig. Mae hynny'n golygu bod dros £150m wedi'i neilltuo i'r diwydiant ers dechrau'r pandemig – arian llenwi bwlch i'r diwydiant pan roedd ei angen fwyaf, yn gyfnewid am fwy o reolaeth gyhoeddus ar wasanaethau.

Hoffem ddiolch i aelodau'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig am eu hadroddiad ar ddyfodol Bysiau a Threnau yng Nghymru. Rwy'n arbennig o falch o weld bod argymhellion y pwyllgor yn cyd-fynd â'n cynlluniau ar gyfer y presennol a'r dyfodol. Fe welwch isod fy ymateb i bob un o argymhellion yr Adroddiad.

## **Gweler isod ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad:**

### **Argymhelliad 1**

Yn y dyfodol, dylai Trafnidiaeth Cymru gyhoeddi ei gynllun busnes a'r cynllun ariannol cysylltiedig a gwneud hynny cyn dechrau'r flwyddyn ariannol oni bai bod amgylchiadau eithriadol.

#### **Ymateb: Derbyn**

Dyma'r amserlen yr ydym yn gweithio tuag ati bob blwyddyn ariannol. Fodd bynnag, mae amseriad cyhoeddi cyllidebau yn golygu bod amser yn brin iawn. Eleni, fe gyhoeddod ni llythyr cylch gwaith tymor llywodraethu TrC ([Transport for Wales: term of government remit letter](#)) ac anfonon ni eu llythyr cyllido blynyddol ar ddechrau mis Ebrill. Cyhoeddwyd cynllun busnes TrC ar gyfer 2022-23 yn yr haf ([Cynllun busnes 2022-23 | Trafnidiaeth Cymru \(trc.cymru\)](#)).

### **Argymhelliad 2**

Dylai Trafnidiaeth Cymru sicrhau bod ei Ddangosyddion Perfformiad Allweddol yn cael eu cyhoeddi a'u bod yn hygyrch. Dylai roi diweddariad i'r Pwyllgor ar y mater hwn chwe mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.

#### **Ymateb: Derbyn**

Yn dilyn adroddiad y Pwyllgor, mae TrC bellach yn cyhoeddi Dangosyddion Perfformiad Allweddol bob mis. ([Perfformiad Trenau | TrC](#))

### **Argymhelliad 3**

Dylai swyddogion Llywodraeth Cymru weithio gyda Trafnidiaeth Cymru i sicrhau bod ei ddyraniadau cyllidebol fel y'u nodir yng nghyllideb Llywodraeth Cymru yn dryloyw ac yn hygyrch.

## **Ymateb: Derbyn**

Byddwn yn gweithio gyda TrC i sicrhau bod ei ddyraniadau cyllidebol yn dryloyw a hygyrch, o bosibl drwy gyhoeddi llythyr ariannu Llywodraeth Cymru.

## **Argymhelliad 4**

Dylai swyddogion Llywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru gydweithio i symleiddio'r broses o bennu'r gyllideb i'w gwneud mor effeithiol â phosibl. Dylid cyhoeddi manylion cyllideb Trafnidiaeth Cymru yn llawn mewn da bryd. Credwn y dylai fod yn bosibl i'r Pwyllgor hwn graffu'n llawn ar gyllideb Trafnidiaeth Cymru yn ystod y broses graffu ar y gyllideb ddrafft.

## **Ymateb: Derbyn**

O gofio bod TrC yn sefydliad cymharol newydd a'i fod yn dal i esblygu, rydym yn chwilio bob amser am ffyrdd o hwyluso a symleiddio prosesau, yn enwedig sut y datblygir ei gynllun busnes blynyddol ac y cytunir arno. Eleni, rydym yn disgwyl i gynllun busnes drafft TrC ein cyrraedd erbyn dechrau Ionawr pan fyddwn yn alinio costau a gweithgareddau â chyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru mewn pryd ar gyfer dechrau'r flwyddyn ariannol. Rydym wrthi'n gweithio gyda TrC iddynt allu cyflwyno'u cynlluniau busnes yn gynt yn y dyfodol fel bod ei amserlen yn cyd-fynd yn well â phroses gosod cyllidebau a chraffu Llywodraeth Cymru.

## **Argymhelliad 5**

Dylai Trafnidiaeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor o fewn y chwe mis nesaf ar weithio mewn partneriaeth â Chyd-bwyllgorau Corfforaethol ac awdurdodau lleol ynghylch datblygu Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol.

## **Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r cyfle i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ynghylch datblygu Cynlluniau Trafnidiaeth Ranbarthol.

Mae Llywodraeth Cymru am gyhoeddi canllawiau cyn bo hir i'r Cyd-bwyllgorau Corfforaethol ynghylch datblygu Cynlluniau Trafnidiaeth Ranbarthol. Nod y canllawiau fydd gweld Cynlluniau effeithiol yn cael eu datblygu mewn ffordd gydweithredol ac effeithlon a fydd yn cyflawni amcanion lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Bydd Llywodraeth Cymru am gefnogi'r Cyd-bwyllgorau i ddatblygu'r Cynlluniau gan ddefnyddio'r arbenigedd technegol yn Trafnidiaeth Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn trafod â'r Cyd-bwyllgorau i gytuno ar y lefel a'r math cywir o gefnogaeth, gan gydnabod mai eiddo i'r Cyd-bwyllgorau yw'r Cynlluniau hyn.

## Argymhelliad 6

Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith y mae'n ei wneud gyda phartneriaid eraill i ddeall patrymau teithio yn y dyfodol, gan gynnwys gwaith a hamdden, a'u heffaith ar bolisi trafndiaeth.

### Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r cyfle i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y gwaith y mae'n ei wneud i ddeall patrymau teithio yn y dyfodol a'u heffaith ar bolisi trafndiaeth.

Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu cynlluniau ar gyfer cyflwyno Arolwg Teithio Cenedlaethol i Gymru. Bydd yr arolwg yn gofyn i sampl gynrychiadol o drigolion Cymru am eu harferion teithio a'u barn am wahanol ddulliau teithio a materion allweddol o ran trafndiaeth. Bydd y data a gesglir yn helpu i dracio'n taith at ein targedau newid hinsawdd a gwireddu blaenoriaethau ac uchelgeisiau Llwybr Newydd, Strategaeth Drafndiaeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n gweithio gyda'n partner Trafndiaeth Cymru i nodi'r dull mwyaf cost-effeithlon o gynnal a dylunio arolygon.

Cafodd y fframwaith ar gyfer monitro Llwybr Newydd, Strategaeth Trafndiaeth Cymru, ei gyhoeddi ym mis Mai 2022. Bydd y fframwaith yn ein galluogi i weld i ba raddau yr ydym yn gwireddu'n blaenoriaethau a'n huchelgeisiau, ac yn cefnogi ein nodau o newid dulliau teithio a lleihau carbon. [Dyma](#) ddata sylfaen gafodd eu cyhoeddi gan Trafndiaeth Cymru ym mis Mai 2022. Caiff y data eu hadolygu a'u diweddarau bob blwyddyn.

## Argymhelliad 7

Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu cynllun gweithredu clir o ran sut y bydd yn annog, neu'n helpu i annog, teithwyr i ddychwelyd i ddefnyddio gwasanaethau bysiau cyhoeddus. Dylai nodi'r amserlenni ar gyfer y gwaith hwn a sut y bydd yn asesu ei effaith.

### Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n chwyldroi ein rhwydwaith bysiau mewn ffordd sydd ond yn digwydd unwaith mewn cenhedlaeth. Cafodd ein hymgyngoriad ar ddiwygio bysiau gefnogaeth ysgubol. Bydd bil yn cael ei gyflwyno i'r Senedd fydd yn creu fframwaith deddfwriaethol newydd fydd yn caniatáu inni adeiladu rhwydwaith bysiau gyda phobl ac nid elw yn ganolog iddo.

Bydd yn brosiect hirdymor a byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid yn yr Awdurdodau Lleol a'r diwydiant i ddatblygu cynllun gweithredu fydd yn nodi sut a phryd y caiff y newidiadau hyn eu gwneud. Bydd y gwaith cynllunio ar ei roi ar waith yn dechrau yn y Flwyddyn Newydd o dan arweiniad Trafndiaeth Cymru. Rydym yn gweithio gyda Trafndiaeth Cymru ar hyn o bryd i bennu llinell amser y gwaith hwn.

Dros gyfnod y pandemig, gwnaethon ni helpu'r diwydiant bysiau gyda gwerth dros £150m o arian. Hefyd, mae Trafnidiaeth Cymru wedi cynnal ymgyrchoedd marchnata fel y rhai ar y rhwydwaith cymdeithasol go iawn i annog pobl i aildechrau defnyddio trafndiaeth gyhoeddus wedi'r pandemig.

## **Argymhelliad 8**

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r sector bysiau i fynd i'r afael â'r prinder gyrwyr a'r effaith ar ddarpariaeth gwasanaethau.

### **Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru yn aelod o weithgor ar lefel y DU sy'n ymdrin â phrinder gyrwyr. Mae'r gweithgor yn cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraethau Cymru, y DU a'r Alban yn ogystal ag arweinwyr o'r sector.

## **Argymhelliad 9**

Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno cynigion cyn gynted â phosibl i fynd i'r afael â thlodi trafndiaeth yng Nghymru sy'n deillio o'r argyfwng costau byw, gan gynnwys prisiau teithio â chymhorthdal a chymorth ariannol arall.

### **Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn ariannu cynllun Fy Ngherdyn Teithio sy'n cynnig traean o ostyngiad i bobl ifanc sy'n defnyddio bysiau. Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn nodi hefyd sut y byddwn yn adeiladu ar lwyddiant y cynllun hwnnw. Mae gwaith manwl ar y gweill i ystyried amrywiaeth o opsiynau i ddarparu system o docynnau bws tecach ledled Cymru.

Rydym wrthi'n ystyried opsiynau ar gyfer cyflwyno polisi 'Tocynnau Tecach' newydd i wneud teithio ar fws yn fwy fforddiadwy ac yn fwy deniadol i bawb yn y gymuned. Mae hyn yn cynnwys ein hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i wella cyfleoedd teithio am ddisgownt i bobl iau. Mae cyrff cyhoeddus ledled y DU wedi mynegi llawer o ddiddordeb mewn mentrau tocynnau rhad.

Er nad ydym wedi diystyru polisi o'r fath mae'n rhaid i ni fod yn realistig ynghylch y cyfyngiadau sydd ar ein cyllideb. O ran yr hyn y gall cyllideb Llywodraeth Cymru ei phrynu, mae hi werth lawer llai heddiw na deuddeg mis yn ôl.

Rydym yn cydnabod effaith yr argyfwng costau byw a bydd hynny, ynghyd â'r cyfyngiadau ar ein cyllideb, yn llywio penderfyniadau ar brisiau tocynnau trên a chynhyrchion tocynnau eraill y mae Trafnidiaeth Cymru yn eu datblygu. Rydym yn gweithio hefyd â Trafnidiaeth Cymru i ddatblygu tocynnau trên Talu wrth Deithio 'sganio i mewn ac allan' a'u defnyddio gyntaf yn ardal Metro'r De. Cynigir ystod o brisiau siwrneiau unffordd rhad, gyda chap dyddiol, wythnosol a misol, tebyg i'r hyn a geir ar drafndiaeth gyhoeddus yn Llundain.

## **Argymhelliad 10**

Rhaid i Lywodraeth y DU sicrhau bod gan Gymru lefel o gyllid ar gyfer gwella'r seilwaith rheilffyrdd sy'n deg, ac sy'n adlewyrchu'r angen sylweddol am fuddsoddiad mewn rhwydwaith sydd ar ei hôl hi.

### **Ymateb: Derbyn**

Byddwn ni'n parhau i wasgu ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i ddarparu'r cyllid sydd ei angen i wella seilwaith y rheilffyrdd yng Nghymru. Er gwaetha'r rhesymau cryf dros ddatganoli'r holl gyfrifoldebau am y rheilffyrdd, o gael dyraniad cyllid teg, mae Llywodraeth y DU wedi gwrthod ein cais. Bydd datganoli llawn yn golygu y gallem ddatblygu'r rheilffyrdd ledled Cymru yn y ffordd drawsnewidiol sydd ei hangen i wireddu'r weledigaeth ar gyfer y rheilffyrdd a ddisgrifir yn Llwybr Newydd, Strategaeth Trafnidiaeth Cymru, gan ddarparu system drafnidiaeth gyhoeddus integredig, cynaliadwy a hygyrch i deithwyr.

## **Argymhelliad 11**

Rhaid i Lywodraeth Cymru symud yn gyflym i gyflawni ei gwelliannau seilwaith arfaethedig ei hun, fel y gwelliannau i amllder Maesteg. Dylai ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad hwn gynnwys manylion am gynlluniau i'w hariannu gan Lywodraeth Cymru / Trafnidiaeth Cymru, gan gynnwys y cynnydd hyd yma ac amserlen ar gyfer cyflawni.

### **Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru'n croesawu'r cyfle i nodi ei chynlluniau i'r pwyllgor yng ngoleuni setliad cyllid diweddar Llywodraeth y DU

Bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda TrC i lunio cynllun sy'n cynnwys y llinellau amser diweddaraf a'r cynlluniau ar gyfer cynyddu amllder gwasanaethau ym Maesteg.

## **Argymhelliad 12**

Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei hasesiad o'r costau sy'n deillio o'i tharged i ddatgarboneiddio 50 y cant o fflyd bysiau Cymru dros y 6 blynedd nesaf. Dylai egluro pa gyllid y bydd yn ei ddarparu dros y cyfnod hwnnw i gynorthwyo gweithredwyr bysiau i ddatgarboneiddio'r fflyd. Dylai adrodd yn rheolaidd ar gynnydd.

### **Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae Llywodraeth Cymru'n croesawu'r cyfle i nodi ei chynlluniau i'r pwyllgor yng ngoleuni setliad cyllid diweddar Llywodraeth y DU.

Mae Llywodraeth Cymru wedi treulio'r 12 mis diwethaf yn trafod â rhanddeiliaid a datblygu Achos Busnes a chynlluniau cyflawni ar gyfer cyrraedd targedau Sero Net Cymru. Disgwylir cwblhau'r cynlluniau hyn ddechrau mis Rhagfyr, ac yna gofynnir i'r Gweinidogion eu cymeradwyo. Wedyn, bydd Llywodraeth Cymru yn nodi'r asesiad.

### **Argymhelliad 13**

Er mwyn gwneud y mwyaf o'r cyllid sydd ar gael yng Nghymru ar gyfer datgarboneiddio, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cyngor, cymorth ac arweiniad i weithredwyr bysiau sy'n dymuno gwneud cais i raglenni Llywodraeth y DU am gyllid ar gyfer bysiau allyriadau isel iawn.

### **Ymateb: Gwrthod**

Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn am eglurder a yw'r rhaglenni a ariennir gan Lywodraeth y DU ar gael i gwmnïau bysiau yng Nghymru ac mae wedi cael gwybod mai dim ond yn Lloegr y mae'r rhaglenni hyn yn cael eu cynnig. Am hynny mae Llywodraeth Cymru wedi treulio'r flwyddyn ddiwethaf yn datblygu ei rhaglen ei hun.

### **Argymhelliad 14**

Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cael â Llywodraeth y DU ar bolisi codi tâl ar ffyrdd.

### **Ymateb: Derbyn**

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cael trafodaethau penodol gyda Llywodraeth y DU am bolisi codi tâl ar ffyrdd. Mae Strategaeth Trafnidiaeth Cymru a'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth (drafft ymgynghori) yn nodi bwriad Llywodraeth Cymru i lunio strategaeth ar gyfer codi tâl teg ar ddefnyddwyr ffyrdd yng Nghymru fel rhan o becyn ehangach o fesurau i wella'r dewisiadau teithio.

### **Argymhelliad 15**

Dylai Llywodraeth Cymru nodi pa asesiad y mae wedi'i wneud o effaith costau ynni a'r argyfwng costau byw ar ei thargedau newid moddol. Os nad yw wedi gwneud hynny eisoes, dylai wneud y gwaith hwn ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor o fewn y 3 mis nesaf ar gynnydd.

### **Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r cyfle i nodi'i hasesiad o effaith costau ynni a'r argyfwng costau byw ar ei thargedau ar gyfer newid dulliau teithio. Byddwn ni'n gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru i gasglu'r dystiolaeth sy'n bod eisoes a thystiolaeth newydd ac yn cyflwyno'r wybodaeth i'r Pwyllgor o fewn y tri mis nesaf.



## Argymhelliad 16

Dylai Llywodraeth Cymru archwilio'r posibilrwydd o ddatblygu targedau mwy gronynnog, er enghraifft, ar lefel ranbarthol ar gyfer newid moddol, a chysylltu'r rhain â chyflawni polisïau yn ranbarthol ac yn lleol.

### **Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae dyletswydd ar y Cyd-bwyllgorau Corfforaethol i lunio Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol, a fydd yn cynnwys manylion sut y byddan nhw'n cael eu rhoi ar waith ac erbyn pryd. Bydd y cynlluniau'n esbonio hefyd sut y bydd y rhanbarth yn ceisio cyrraedd targedau sero net Cymru. Bydd y Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol yn seiliedig ar y data a gesglir drwy'r Arolwg Teithio Cenedlaethol ar deithiau personol yn ôl dull a'r canfyddiadau ar opsiynau teithio cynaliadwy.

## Argymhelliad 17

Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith y grŵp sy'n cael ei sefydlu i archwilio llwybrau posibl i sero net erbyn 2035. Dylai esbonio pam nad yw wedi gofyn i Bwyllgor y DU ar Newid yn yr Hinsawdd, sef y cynghorydd statudol i lywodraethau yn y DU, wneud y dadansoddiad hwn ar ei rhan.

### **Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r cyfle i ddiweddarau'r Pwyllgor ar waith y grŵp sy'n cael ei sefydlu i archwilio llwybrau posibl i sero net erbyn 2035.

Yr ymrwymiad yn y Cytundeb Cydweithredu yw "Comisiynu cyngor annibynnol i archwilio llwybrau posibl i sero net erbyn 2035 - y targed presennol i fod yn sero net yw 2050. Edrychir ar yr effaith ar gymdeithas a sectorau ein heconomi a sut y gellir lliniaru unrhyw effeithiau andwyol, gan gynnwys rhannu'r costau a'r buddion yn deg. Rydym o blaid datganoli rhagor o'r pwerau a'r adnoddau sydd eu hangen ar Gymru i roi'r ymateb mwyaf effeithiol i gyrraedd sero-net."

Gwnaed yr ymrwymiad hwn ar y cyd gan y Gweinidog Newid Hinsawdd ac Aelod Dynodedig Plaid Cymru.

Ym mis Awst 2022, dywedwyd wrth y Senedd mewn Datganiad Ysgrifenedig ein bod dal wrthi'n datblygu ffordd ar gyfer cyflawni'r ymrwymiad, ond nodwyd mai Jane Davidson fyddai'n cadeirio'r gwaith. Yna, datblygwyd manyleb ar gyfer y gwaith a chytunwyd mai Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru fyddai'n cynnal y gwaith ymchwil cychwynnol i Grŵp o arbenigwyr dan gadeiryddiaeth Jane Davidson i'w ystyried. Yna, bydd y panel yn cynnal archwiliad fel y gwelant yn dda i effeithiau a buddion cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol i Gymru o gyflymu'r broses ddatgarboneiddio. Cyflwynir Datganiad Ysgrifenedig i'r Senedd cyn hir gyda manylion pellach. O ystyried y cytundeb rhwng y Gweinidog Newid Hinsawdd a'r Aelod Dynodedig ar gwmpas y gwaith, barnwyd bod hon yn ffordd well o'i gwneud hi na gofyn i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd.



## **Argymhelliad 18**

Dylai Llywodraeth Cymru nodi faint o gyllid sydd wedi'i ailgyfeirio o brosiectau oherwydd yr adolygiad ffyrdd a sut y defnyddiwyd y cyllid ailgyfeirio hwnnw, gan gynnwys a ddefnyddiwyd unrhyw gyllid i helpu gwasanaethau bysiau neu drenau. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau y dylid defnyddio cyllid o brosiectau sydd wedi'u canslo ar gyfer trafndiaeth gynaliadwy a mesurau datgarboneiddio yn yr un ardal neu ranbarth.

### **Derbyn mewn egwyddor**

Cafodd y cynlluniau trafndiaeth sydd wedi'u cynnwys yn yr Adolygiad Ffyrdd eu datblygu dros nifer o flynyddoedd, a dyrannwyd ychydig o gyllid ar gyfer rhai o'r cynlluniau hynny yng nghylch y gyllideb bresennol. Wrth ddyrannu'r cyllidebau prin sydd ar gael ar gyfer trafndiaeth, ffafriwyd opsiynau trafndiaeth gynaliadwy, yn unol â Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafndiaeth (drafft ymgynghori). Yn draddodiadol, wrth raglennu'r cynlluniau hynny, y bwriad fyddai eu darparu dros nifer o flynyddoedd ac ni fyddai modd fforddio pob un ohonynt yng nghylch y gyllideb bresennol.

## **Argymhelliad 19**

Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith y mae wedi'i wneud hyd yma ar newid ymddygiad a thrafnidiaeth.

### **Ymateb: Derbyn**

Yn Llwybr Newydd – Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, 2021 ac yn Cymru Sero Net – Cyllideb Garbon 2 (2021-25), pennwyd targedau uchelgeisiol ar gyfer newid dulliau teithio, gan fabwysiadu dulliau teithio llesol a thrafnidiaeth gynaliadwy yn lle defnyddio ceir preifat. Er mwyn gwireddu'r newid sydd ei angen o ran ymddygiad, rydym yn buddsoddi er mwyn sicrhau ei bod yn hawdd i bobl newid i ddulliau teithio llesol a chynaliadwy. Rydym yn gwneud hynny trwy gyfuniad o wella gallu, gwella seilwaith a gwasanaethau, a symbylu pobl i newid. Gwyddom fod nifer o ymyriadau sy'n llwyddo i newid ymddygiad a byddwn yn parhau i roi ymyriadau profedig ar waith, gan adeiladu ar enghreifftiau o'r arferion gorau.

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid ar raglenni newid ymddygiad er mwyn annog pobl i fanteisio ar dulliau teithio iach a llesol. Bydd mentrau, gan gynnwys y rhaglen i gyflwyno terfyn cyflymder o 20mya a mesurau i fynd i'r afael â pharcio ar balmentydd, yn helpu i'w gwneud yn haws i bawb gerdded a beicio. Byddwn yn cymryd rhagor o gamau i annog pobl i ddewis opsiynau teithio llesol a chynaliadwy yn lle teithio mewn ceir. Mae'r daith i'r ysgol yn rhywbeth yr ydym yn hoelio cryn sylw arni wrth inni weithredu i gynyddu teithio llesol, gan wneud hynny oherwydd y manteision lu o ran iechyd a llesiant, oherwydd yr effeithiau addysgol ac amgylcheddol, a'r effeithiau o ran diogelwch ar y ffyrdd. Rydym yn gweithio gyda

phartneriaid i hyrwyddo ffyrdd cyfannol o weithredu sy'n cyfuno gwaith i wella seilwaith trwy ddarparu llwybrau a chyfleusterau newydd neu gau strydoedd trwy gynllun School Streets, ynghyd ag ymyriadau hyrwyddo.

Mae'n rhaglen Teithiau Llesol yn parhau i weithio gyda nifer mawr o gymunedau ysgolion ym mhob cwr o Gymru i annog plant a theuluoedd i gerdded, i ddefnyddio sgwteri neu i feicio i'r ysgol ar gyfer rhan o'u taith i'r ysgol neu ar gyfer y daith gyfan. Er mwyn ategu hyn, ein huchelgais yw annog pob ysgol, yn y pen draw, i lunio cynlluniau teithio llesol i'r ysgol ar gyfer eu disgyblion, eu rhieni a'u staff. Byddwn yn sicrhau bod adnoddau a chynghor ar gael i ysgolion i'w helpu i ddatblygu eu cynlluniau teithio. Byddwn yn parhau i helpu i ddiogelu'n disgyblion trwy ddarparu hyfforddiant mewn ysgolion. Bydd yr hyfforddiant yn cynnwys darpariaeth ar gyfer cerddwyr ifanc, a byddwn hefyd yn gwella cysondeb yr hyfforddiant beicio a ddarperir trwy gyflwyno Safonau Cenedlaethol Bikeability yng Nghymru. Byddwn yn mynd ati fwyfwy i hyrwyddo ac i ehangu hyfforddiant y tu allan i'r ysgol. Bydd hynny'n cynnwys darparu cyfleoedd hyfforddi cynhwysol yn ein cymunedau i bob oedolyn yn ogystal â phlant.

Mae rhagor o wybodaeth am y gweithgareddau newid ymddygiad sy'n cael eu cynnal i'w gweld yn y Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth (Drafft Ymgynghori): [cynllun-cyflawni-cenedlaethol-ar-gyfer-trafnidiaeth-2022-i-2027\\_0.pdf \(llyw.cymru\)](#)

## Argymhelliad 20

Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ymyriadau penodol gyda'r nod o annog newid moddol yn y boblogaeth fawr sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru.

## Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r cyfle i amlinellu ei llwybr ar gyfer trafndiaeth wledig er mwyn helpu pobl sy'n byw mewn rhannau gwledig o Gymru i gael gafael ar drafndiaeth gyhoeddus ac i ddefnyddio llai ar eu ceir eu hunain. Mae'r llwybr hwnnw'n cynnwys camau fel darparu rhagor o gynlluniau peilot o dan y cynllun Fflecsi llwyddiannus a gynigir gan Trafnidiaeth Cymru, cefnogi clybiau ceir sy'n eiddo i'r gymuned ac sy'n cael eu rhedeg ganddynt, integreiddio'n well â thrafnidiaeth gymunedol, a gwella'r integreiddio rhwng rhwydweithiau trafndiaeth wledig a threfol mewn rhanbarth. Rydym wedi cynnal cyfres o gyfarfodydd bwrdd crwn gyda'n partneriaid yn yr awdurdodau lleol a chyda rhanddeiliaid ehangach i graffu ar ein cynlluniau, a chrosawyd y cyfarfodydd hynny gan y rhanddeiliaid. Rydym yn anelu at gyhoeddi'n llwybr terfynol ar gyfer trafndiaeth wledig yng ngwanwyn 2022.

## Argymhelliad 21

Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei safbwynt ar yr awgrymiadau a wnaed gan aelodau'r cyhoedd trwy ein gwaith ymgysylltu, ac sydd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad hwn *Cael gwared ar rwystrau a chynyddu'r defnydd o drafndiaeth gyhoeddus: 10 egwyddor o'n gwaith*

ymgysylltu –t. 47 o'r adroddiad).

## Ymateb: Derbynn

Byddai Llywodraeth Cymru yn croesawu'r cyfle i amlinellu ei safbwynt ar yr awgrymiadau a wnaed gan aelodau'r cyhoedd trwy waith ymgysylltu'r pwyllgor.

<b>Awgrym</b>	<b>Safbwynt Llywodraeth Cymru</b>
Tocynnau integredig er mwyn i deithwyr allu trosglwyddo ar draws gwahanol foddau, gweithredwyr a lleoliadau.	Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn bwrw ymlaen â gwaith trwy Trafnidiaeth Cymru i ddatblygu sut y bydd yn mynd ati i roi tocynnau integredig ar waith ar draws dulliau teithio gwahanol a chyda gweithredwyr gwahanol yng Nghymru.
Tocynnau hyblyg i alluogi teithwyr i brynu sawl taith ar yr un pryd i'w defnyddio pan fyddant yn dymuno.	Mae Trafnidiaeth Cymru yn cynnig "tocynnau Multiflex" sy'n floc gostyngol o 12 taith sengl. Rydym hefyd yn gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru ar docynnau Talu wrth Deithio a fydd yn cael eu cyflwyno yn ardal Metro De Cymru i ddechrau.
Gwybodaeth teithio integredig amser real ar draws yr holl lwyfannau sydd ar gael, o gyhoeddiadau ar-lein i orsafoedd, o un ffynhonnell wybodaeth.	Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn bwrw ymlaen â gwaith trwy Trafnidiaeth Cymru i ddatblygu gwybodaeth amser real ar gyfer bysiau, ac mae systemau ar waith eisoes i arddangos gwybodaeth amser real i gwsmeriaid yn ddwyieithog mewn gorsafoedd rheilffordd.
Amseroedd cysylltu synhwyrol rhwng dulliau trafndiaeth i roi digon o amser i bob teithiwr gyrraedd eu cysylltiad yn llwyddiannus.	Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn bwrw ymlaen â gwaith trwy Trafnidiaeth Cymru i gynllunio teithiau integredig rhwng bysiau a'r rheilffyrdd. Mae'r gwaith hwnnw'n cael ei gefnogi gan fuddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn cyfnewidfeydd trafndiaeth ledled Cymru, gan ddod â'r rheilffyrdd, bysiau a theithio llesol ynghyd mewn un man er mwyn helpu pobl i newid rhwng dulliau teithio gwahanol.
Trafnidiaeth gyhoeddus i redeg i amser rhwng cerbydau yn hytrach na chael ei amserlenni ar gyfer unrhyw amser penodol o'r dydd.	Mater i weithredwyr unigol yw amserlenni bysiau ar hyn o bryd. Bydd ein bil diwygio bysiau yn rhoi'r pŵer i ni bennu amserlenni.
Cynyddu'r gallu i gludo beiciau ar dtrafnidiaeth gyhoeddus.	Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried manylebau cerbydau wrth wneud y gwaith cynllunio ar gyfer cyflwyno masnachfreinio bysiau. Mae'r buddsoddiad o £800 miliwn mewn trenau newydd sbon yn cynnwys darparu mwy a

	<p>gwell capasiti i gludo beiciau. Mae Trafnidiaeth Cymru hefyd yn edrych ar opsiynau ar gyfer datblygu cerbydau "Teithio Llesol" er mwyn eu defnyddio ar Linell Calon Cymru.</p>
<p>Ailgyflwyno amserlenni papur.</p>	<p>Mater i weithredwyr bysiau unigol yw paratoi a darparu amserlenni. Mae'r holl amserlenni bysiau ar gael ar-lein, trwy ap Traveline Cymru, neu trwy ganolfan gyswllt Traveline Cymru. Mae amserlenni rheilffyrdd ar bapur ar gael mewn gorsafoedd ledled Cymru sydd â staff.</p>
<p>Integreiddio polisi trafnidiaeth â pholisïau eraill sy'n effeithio ar gynllunio defnydd tir neu fuddsoddiadau cysylltiedig â seilwaith, megis ysbytai a datblygiadau tai.</p>	<p>Mae Llywodraeth Cymru yn helpu'r awdurdodau lleol a'r Cyd-bwyllgorau Corfforaethol i sicrhau bod y ffordd yr eir ati i gynllunio defnydd tir, fframweithiau economaidd rhanbarthol a chynlluniau trafnidiaeth ranbarthol yn cyd-fynd yn well â'i gilydd er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'i gilydd o'r cychwyn cyntaf, yn enwedig wrth ganolbwyntio ar wasanaethau cyhoeddus.</p>
<p>Gwella gwasanaethau rheilffordd Casnewydd i Sir Benfro trwy fynd i'r afael â'r tro cam yn Abertawe; cwblhau'r gwaith o drydaneiddio prif reilffordd De Cymru; datblygu Caerfyrddin fel pen rheilffordd i ddarparu trenau amlach ar draws gorllewin Cymru; a chyflwyno gwasanaeth bob dwy awr i Abergwaun.</p>	<p>Mae seilwaith y rheilffyrdd, megis y "gyffordd groesgam" yn Abertawe a thrydaneiddio Prif Linell De Cymru, yn faterion heb eu datganoli sydd wedi'u cadw'n ôl gan Lywodraeth y DU. Rydym yn parhau i ddadlau'r achos gerbron Llywodraeth y DU am fwy o fuddsoddiad yn seilwaith y rheilffyrdd yng Nghymru. Bydd y cyhoeddiad diweddar am wasanaethau newydd gan Grand Union Trains ac estyn gwasanaethau Great Western Railways i Gaerfyrddin yn golygu y bydd rhagor o gyfleoedd teithio ar gael. Mae Trafnidiaeth Cymru wrthi'n ystyried y gwasanaethau y maent yn eu cynnig yng Ngorllewin Cymru, gan gynnwys y potensial i gynnig gwasanaeth bob dwy awr i Abergwaun.</p>
<p>Gwella gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus yn y gogledd drwy ddatblygu llwybrau y tu hwnt i brif goridor trafnidiaeth Caergybi, Bangor, Conwy a Chaer; datblygu llwybrau trafnidiaeth gyhoeddus o'r dwyrain i'r gorllewin, cysylltedd ac amllder; ailagor y rheilffordd o Fangor i Gaernarfon; a chyfeirio traffig ymwelwyr dydd i gyfnewidfa trafnidiaeth gyhoeddus lle</p>	<p>Mae Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru yn edrych ar gysylltedd trafnidiaeth gyhoeddus ar draws pob rhan o'r Gogledd, sy'n cynnwys ardaloedd gwledig yn ogystal ag ardaloedd trefol, er mwyn helpu pobl i wneud dewisiadau cynaliadwy ynghylch sut y maent yn teithio.</p>

gall ymwelwyr barhau â'u taith gan ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus.

Hefyd, mae gwaith i wireddu'r ymrwymiad yn y Cytundeb Cydweithredu i wella cysylltedd trafndiaeth gyhoeddus rhwng y Gogledd a'r De, gan gynnwys diogelu coridorau teithio, yn cael ei wneud mewn partneriaeth â Trafndiaeth Cymru.

## Argymhelliad 22

Dylai Great British Railways barhau yn seiliedig ar statws cyfartal i Llywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig.

### Ymateb: Derbyn

Yn ein hymateb i ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar Great British Railways, gwnaethom dynnu sylw at y sefyllfa annerbiniol lle nad yw cynlluniau presennol Llywodraeth y DU ar gyfer Great British Railways, yn cynnwys unrhyw atebolrwydd i Gymru nac i Weinidogion Cymru. Byddwn yn parhau i godi'r mater hwn gyda Llywodraeth y DU.

## Argymhelliad 23

Dylai Trafndiaeth Cymru ddarparu gwybodaeth am y sefyllfa ddiweddaraf o ran costau Metro yn sgil chwyddiant cynyddol ac unrhyw effaith y mae hyn wedi'i chael ar yr amserlen gyflawni ar gyfer pob un o'r cynlluniau.

### Ymateb: Derbyn

Gwelwyd oedi wrth fwrw ymlaen â'r rhaglen waith gyffredinol i drawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd oherwydd effaith y pandemig, oherwydd y cyfyngiadau byd-eang sy'n parhau o ran cyflenwadau deunyddiau, ac oherwydd yr ansicrwydd sy'n ganlyniad i'r gwrthdaro yn Wcráin.

Byddem yn hapus i amlinellu'r sefyllfa ddiweddaraf o ran cynlluniau'r Metro a thrawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd ar ôl i gylch pennu cyllideb 2023-24 ddod i ben.

## Argymhelliad 24

Dylai Trafndiaeth Cymru gyhoeddi'r iteriad diweddaraf o'i gynllun cyflawni pum mlynedd ar gyfer pob un o'r tri chynllun Metro yng Nghymru.

### Ymateb: Derbyn

Byddai Llywodraeth Cymru yn croesawu'r cyfle i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y prosiectau Metro sy'n cael eu cyflenwi ar draws Cymru ac am y rhaglenni a fydd yn

cael eu cyflwyno yn eu sgil. Bydd y rhaglenni hynny'n rhan allweddol o'r cynlluniau trafndiaeth rhanbarthol ar gyfer y rhanbarthau hynny lle mae prosiectau Metro.

Byddwn yn llunio Datganiad Ysgrifenedig yn y flwyddyn newydd.

### **Argymhelliad 25**

Dylai Trafnidiaeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynlluniau peilot tocynnau integredig a dylai esbonio'r camau nesaf.

#### **Ymateb: Derbyn**

Byddai Llywodraeth Cymru yn croesawu'r cyfle i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynlluniau peilot ar docynnau integredig. Mae'r cynlluniau sydd gennym ar gyfer llwybr bws T1 yn gyfle cyffrous i ddangos enghraifft o integreiddio rhwng y rheilffyrdd a bysiau.

### **Argymhelliad 26**

Yn amodol ar drafodaethau gyda'r sefydliad, dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno cynigion ar gyfer cynnwys Trafnidiaeth Cymru fel ymgynghorai cynllunio statudol ar gyfer datblygiadau mawr.

#### **Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Byddwn yn ymchwilio i weld a yw'n briodol cynnwys Trafnidiaeth Cymru yn ymgynghorai statudol, ai dyna'r ffordd orau i'r corff hwnnw ddylanwadu ar ddatblygiadau mawr, ac os felly, sut y gellid gwneud hynny.